# Papur y Bwrdd

8 Rhagfyr 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | Adroddiad Cyllid – Diweddariad Blwyddyn Ariannol 2016-17 |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **NRW B B 70.16** |
| **Paratowyd y Papur gan:** | Rob Bell – Pennaeth Cyllid |
| **Noddwyd y Papur gan:** | Kevin Ingram – Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | Craffu ar y sefyllfa ariannol ar gyfer 2016-17 fel y mae hi ar 31 Hydref 2016;<br><br>Cymeradwyo'r newidiadau i Gyllideb Ddiwygiedig 2016-17. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Cofiwch - efallai na fydd yr holl benawdau yn gymwys i'r pwnc | **Ystyried y tymor hir:**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol gyfredol, ac mae rheoli cyllid yn effeithiol yn elfen bwysig wrth gynllunio ar gyfer y tymor hir.<br><br>**Defnyddio dull integredig:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn ffordd gydweithredol:**<br><br>**Atal problemau rhag digwydd:**<br>Mae'r papur hwn yn amlygu'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau gostyngiadau i'n cyllid yn y dyfodol |

## Pwnc

1. Rydym ni bellach mwy na hanner ffordd trwy'r flwyddyn ariannol ar gyfer 2016-17. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf fel y mae ar 31 Hydref 2016.

2. Mae'r Tîm Gweithredol wedi cytuno ar ddiwygiadau i'r gyllideb eleni o ganlyniad i'r Adolygiad Canol Blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig crynodeb o'r newidiadau hynny ac yn gofyn y Bwrdd i'w cymeradwyo.

3. Nid anfonwyd unrhyw eitemau ar gyfer cymeradwyaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf.

## Cefndir

4. Mae ein hegwyddorion cyllidebu yn datgan y bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes blynyddol a'r Gyllideb cyn dechrau'r Flwyddyn Ariannol a bydd newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r Gyllideb yn cael eu lleihau i'r eithaf. Bydd Cyllidebau Diwygiedig yn cael eu cyhoeddi dim mwy na thair gwaith yn ystod y flwyddyn: yn Chwarter 1, Canol y Flwyddyn (Chwarter 2) a Chwarter 3. Rhannwyd copi o'r egwyddorion gyda'r Bwrdd yn flaenorol.

5. Cymeradwywyd y Gyllideb Ddiwygiedig o ganlyniad i'r Adolygiad Canol Blwyddyn gan ein Tîm Gweithredol ar 5 Hydref 2016.

## Asesiad

### Newidiadau i'r Gyllideb ar gyfer 2016-17

6. Mae canlyniadau'r Adolygiad Canol Blwyddyn wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Mid-Year Review | Income | Expenditure | In Year Balance | Carry Forward 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| Revised Budget as at Quarter 1 | 182.7 | 182.7 | 0.0 | 0.0 |
| 1 - Expenditure Review | 0.0 | -2.1 | 2.1 | 0.0 |
| 2 - Income Review | 0.8 | 0.5 | 0.3 | 0.0 |
| 3 - Changes in ring fenced Income | 3.2 | 3.1 | 0.0 | 0.1 |
| 4 - Reinvestment | 0.0 | 1.1 | -1.1 | 0.0 |
| 5 - Balance to Increase contingency | 0.0 | 1.3 | -1.3 | 0.0 |
| Proposed Revised Budget | 186.7 | 186.6 | 0.0 | 0.1 |

7. Prif ganlyniadau'r adolygiad oedd:

   - Mae'r cyfanswm incwm wedi cynyddu gan £182.7 miliwn i £186.7 miliwn ac mae'r gwariant wedi cael ei ddiwygio i £186.6 miliwn. Bydd y £0.1 miliwn sy'n weddill yn cael ei symud ymlaen i 2017-18 ar gyfer prosiectau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u neilltuo.

- Mae adolygiad o gyllidebau gwariant wedi nodi gostyngiad cyffredinol o £2.1 miliwn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y gost ar gyfer ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, ac arbedion costau staff (yn rhannol o ganlyniad i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol).

- Mae adolygiad o gyllidebau incwm wedi nodi cynnydd cyffredinol (net) o £0.3 miliwn. Y prif newidiadau yw cynnydd yn yr incwm net o bren ar gyfer costau gwerthiant ychwanegol (£0.5 miliwn) a gostyngiad mewn incwm ar gyfer ralïau (£0.3 miliwn). Mae'r gostyngiad mewn incwm ralïau wedi deillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys y gyfradd a negodwyd yn ôl y filltir ar gyfer 2016, llai o ralïau ar dir CNC, a'r Gymdeithas Chwaraeon Modur yn dechrau contractio mwy o'r gwaith atgyweirio ar y ffyrdd eu hunain.

- Mae cyllid wedi cynyddu gan £3.2 miliwn eleni, i'w ddefnyddio ar raglenni gwaith penodol o ganlyniad i gymorth grant ychwanegol, cyfraniadau tuag at gynlluniau cyfalaf, a defnyddio'r incwm o daliadau a godwyd gan yr Uned Gwella'r Amgylchedd yr ydym wedi'u casglu dros nifer o flynyddoedd.

- Gwnaeth y Tîm Gweithredol ystyried nifer o gynigion i ail-fuddsoddi'r cyllid. Y prif eitemau oedd darpariaeth ar gyfer rhwymedigaeth costau trwydded TGCh (£0.6 miliwn) a gwrthdroi targed effeithlonrwydd a roddwyd i'r tîm masnachol na allent ei fodloni heb effeithio ar ein lefelau incwm (£0.4 miliwn).

- Roeddem yn gallu cynyddu ein cyllideb wrth gefn gan £1.3 miliwn o ganlyniad i hyn.

- Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau sylweddol i'r sefyllfa gyllidebol o ran cyfalaf, er ein bod ni wedi cynnal trafodaethau cadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymorth grant ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon er mwyn lleihau'r lefel ormodol o raglenni yn y Rhaglen Gyfalaf Llifogydd.

**Adroddiad ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd yma**

8. Gwelir crynodeb o'r perfformiad ariannol fel yr oedd ar ddiwedd Hydref 2016 yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cael ei fesur yn erbyn y cyllidebau diwygiedig y cytunwyd arnynt gan y Tîm Gweithredol yn yr Adolygiad Canol Blwyddyn.

9. Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar ddiwedd mis Hydref yn gadarnhaol. Mae incwm yn parhau o flaen y Gyllideb Ddiwygiedig. Mae gwariant ar ei hôl hi o ran proffil, nad yw'n anarferol ar gyfer adeg hon y flwyddyn.

10. Mae incwm o flaen y proffil o 0.3% (neu £0.3 miliwn). Rydym yn disgwyl y bydd incwm o ffioedd yn unol â'r Gyllideb ac mae ein hincwm masnachol yn cadw'n gyfartal â'r proffil y cytunwyd arno fel rhan o'r diwygiad i'r gyllideb.

11. Mae gwariant yn 3.7% (neu £3.9 miliwn) o dan y proffil. Mae gwariant o dan y Gyllideb yn bennaf oherwydd amseru a chyfleodd i wneud arbedion pellach y flwyddyn ariannol hon. Mae llawer o'r effaith amseru yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth newydd a'r blaenoriaethau cyfrifoldeb na wnaethom dderbyn hysbysiad am gyllid ychwanegol ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru tan fis Mawrth 2016. Rydym wedi gofyn i gyfarwyddiaethau ganolbwyntio ar y cyllidebau hynny yn ystod y chwarter hwn.

12. Rydym yn cynnal adolygiad ysgafnach o'r cynnydd yn erbyn y Gyllideb yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr, a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Tîm Gweithredol ym mis Chwefror 2017 ac yna yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

## Argymhellion

13. Craffu ar y sefyllfa ariannol ar gyfer 2016-17 fel y mae hi ar 31 Hydref 2016.

14. Cymeradwyo'r newidiadau i Gyllideb Ddiwygiedig 2016-17 y cytunwyd arnynt gan y Tîm Gweithredol.

## Risgiau Allweddol (a Chyfleoedd)

15. Rhestrir yr holl risgiau a chyfleoedd rydym yn ymwybodol ohonynt yn **Atodiad A**. Mae'r broses Gwerthuso Swyddi yn dirwyn i ben ac ar hyn o bryd rydym yn gyfforddus bod gennym ddigon o arian wrth gefn i dalu am unrhyw oblygiadau ariannol yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

## Goblygiadau Ariannol

16. Mae'r papur hwn am sefyllfa ariannol a pherfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi, ar wahân i'r amser a dreuliwyd yn gwneud gwaith rheoli ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru a chreu'r adroddiad hwn.

## Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

17. Dim angen.

**Atodiad**

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol ar gyfer Hydref 2016